

Gwiriwr Cymhwysra Cyflym

Cyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb, cadarnhewch eich bod yn gallu ateb OES i bob un o'r cwestiynau canlynol.

Cymhwysra'r Busnes

- ☐ Mae fy musnes wedi'i leoli ym Mlaenau Gwent neu rwy'n bwriadu adleoli i Flaenau Gwent.
- ☐ Mae fy musnes yn fusnes cyn-dechrau neu wedi bod yn masnachu am lai na 6 mis.
- ☐ Bydd y busnes yn gweithredu'n llawn amser (o leiaf 35 awr yr wythnos).
- ☐ Y busnes fydd fy mhrif ffynhonnell incwm.
- ☐ Rwyf wedi ymgysylltu â darparwr cymorth busnes cydnabyddedig.
- ☐ Mae gennyf gynllun busnes hyfyw a llwybr clir tuag at greu incwm.

Cymhwysra'r Prosiect

- ☐ Bydd y prosiect yn cefnogi sefydlu a datblygiad fy musnes.
- ☐ Defnyddir y grant ar gyfer gwariant cyfalaf cymwys yn unig.
- ☐ Nid yw unrhyw eitemau wedi'u prynu, eu harchebu nac wedi'u hymrwymo iddynt cyn cael cymeradwyaeth.
- ☐ Gellir cwblhau'r prosiect a chyflwyno'r hawliad erbyn **31 Ionawr 2027**.

Cymhwysra Ariannol

- ☐ Gallaf ddarparu o leiaf 20% o gyllid cyfatebol.
- ☐ Rwy'n deall bod y grant yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau ac y gallaf ariannu'r prosiect ymlaen llaw.

Cydymffurfiaeth â Grantiau Blaenorol

- ☐ Rwyf wedi cydymffurfio â'r holl amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw grant blaenorol a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.
- ☐ Rwyf wedi darparu unrhyw wybodaeth fonitro, tystiolaeth o allbynnau/deilliannau a gwybodaeth gyflogaeth a oedd yn ofynnol o dan gytundebau grant blaenorol.
- ☐ Nid oes unrhyw faterion cydymffurfio, adennill grant neu adennill arian grant (clawback) yn weddill yn fy erbyn i nac yn erbyn fy musnes.

Tystiolaeth Ategol

- ☐ Gallaf ddarparu Cynllun Busnes.
- ☐ Gallaf ddarparu Rhagolwg Llif Arian 12 mis.
- ☐ Gallaf ddarparu Rhagolwg Elw a Cholled 12 mis.
- ☐ Gallaf ddarparu dyfynbrisiau a dogfennaeth ategol os caf fy ngwahodd i gyflwyno Cais Llawn.

Datganiad

- ☐ Rwyf wedi darllen Canllawiau'r Grant Cychwyn Busnes.
- ☐ Rwy'n deall nad yw bodloni'r meini prawf cymhwysra yn gwarantu y bydd grant yn cael ei ddyfarnu.